# SL(5)475 – Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3462) (Cy.307) ac yn darparu ar gyfer arfer pwerau a gweithredu Rheoliad (EC) 2017/625 yng Nghymru ynghylch rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion (y Rheoliad ynghylch Rheolaethau Swyddogol).

Caiff y rheoliad presennol ynghylch rheolaethau swyddogol (Rheoliad (EC) 882/2004) ei ddirymu ar 14 Rhagfyr. O ganlyniad i hyn, mae angen y Rheoliadau hyn i ddarparu fframwaith cyfreithiol i Gymru i orfodi rheolaethau swyddogol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**.

Mae'r rheol 21 diwrnod o dan y Ddeddf Offerynnau Statudol yn darparu y dylid gosod offerynnau 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Mae hyn yn galluogi Aelodau i geisio diddymu offerynnau o'r fath cyn iddynt gael effaith, oherwydd y gall achosi dryswch os diddymir deddfwriaeth ar ôl iddi gael ei gweithredu. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr amgylchiadau'n cyfiawnhau torri'r rheol honno.

Rhoddwyd esboniad am dorri'r rheol gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, **mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 28 Tachwedd 2019**.

Nodwn fod y llythyr yn datgan bod y Rheoliadau "yn hanfodol i gynnal rheolaethau a gwaith gorfodi swyddogol" ac, os na fydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 14 Rhagfyr 2019, "ni fydd gan Gymru fframwaith cyfreithiol i orfodi rheolaethau swyddogol, a allai beryglu iechyd y cyhoedd (yn ogystal ag iechyd a lles anifeiliaid), tanseilio hyder busnesau a defnyddwyr a pheryglu mynediad i farchnad yr UE. Os na fydd yr offerynnau statudol yn dod i rym ar 14 Rhagfyr, ni fydd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac awdurdodau gorfodi eraill yng Nghymru'r pwerau deddfwriaethol i orfodi cyfreithiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid."

Mae'r Memorandwm Esboniadol (ME) yn nodi'r rhesymau dros dorri'r rheol 21 diwrnod ar dudalen 3:

> …8. The drafting of the SIs has been delayed because important parts of them depended on the status of the United Kingdom, insofar as whether it was a Member State of the European Union on the coming into force date (14 December 2019) of the OCR. Certainty over this position was not forthcoming from UK Government and the European Union until very shortly before the 31 October.
>
> 9. The Impact of this on the drafting process in all of the devolved administrations has been significant, and this is the reason why the final SIs were not able to be submitted for scrutiny in time to avoid the recommendation not to adhere to the 21-day convention…

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Nodwn fod y broses o ddrafftio’r Rheoliadau hyn wedi’i gohirio o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch statws y Deyrnas Unedig fel aelod-wladwriaeth o’r Undeb Ewropeaidd.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Rhagfyr 2019**